| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 21 Hydref 2010 |
| **TEITL** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| **PWRPAS** | I gael cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i ddarparu a chefnogi Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. |
| **ARGYMHELLIAD** | Argymhellir bod y Cyngor:<br>a) Yn cymeradwyo’r cytundeb yn Atodiad A ar gyfer darparu a chefnogi Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.<br>b) Dirprwyo’r hawl i’r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i ddiwygio cyfansoddiad y Cyngor yn ddarostyngedig i sicrhau cytundeb gyda Chyngor Sir Ynys Môn.<br>c) Dirprwyo’r hawl i’r Pennaeth Adran Rheoleiddio, mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, wneud man ddiwygiadau i’r cytundeb yn Atodiad A. |
| **AWDUR** | Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. W Gareth Roberts<br>Cyng. John R Jones |

## 1. Cefndir

1.1 Ar yr 15 Mehefin 2010, cyflwynwyd adroddiad i Fwrdd y Cyngor i gael cymeradwyaeth ar gyfer darparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd ar gyfer Cyngor Gwynedd (ddim yn cynnwys Ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) a Chyngor Ynys Môn. Roedd yr argymhellion a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn cynnwys:

i) Bod Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei gyflwyno gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

ii) Bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn.

iii) Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ffurfio fel corff trawsffiniol ar gyfer cymryd penderfyniadau.

Cafodd yr argymhellion uchod hefyd eu cymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Ynys Môn ar y 15 Mehefin 2010.

1.2 Ers cael cymeradwyaeth gan Fwrdd y Cyngor mae'r ddau awdurdod (Gwynedd a Môn) wedi mynd ati i weithredu ar yr argymhellion uchod. Pwrpas yr adroddiad yma yw gweithredu ar argymhelliad iii), sef fod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ffurfio fel corff penderfynu trawsffiniol.

1.3 Mae'n bwysig nodi felly fod yr egwyddor ar gyfer creu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn, eisoes wedi ei gytuno gan Fwrdd y Cyngor ac mai'r cam nesaf ar gyfer gweithredu ar hyn yw cytuno ar y manylder.

**2. Y Cytundeb**

2.1 Mae'r cytundeb sydd yn Atodiad A wedi ei chreu ar y cyd gan swyddogion Cynllunio a Chyfreithiol Gwynedd a Môn. Mae'r cytundeb yn manylu ar gyfrifoldebau'r Pwyllgor a'r trefniadau cyfansoddiadol, gweithredol a gweinyddol ar gyfer y Pwyllgor.

2.2 Mae cynnwys y cytundeb wedi cael ei gytuno gan swyddogion perthnasol yng Ngwynedd a Môn. Y bwriad yw cael cytundeb gan Gyngor Llawn y ddau Awdurdod er mwyn cael symud ymlaen i roi'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ei le. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r ddau Awdurdod symud ymlaen i roi'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (argymhelliad i) yn 1.1) yn ei le, ac i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o gynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y ddau Awdurdod (argymhelliad ii) yn 1.1).

2.3 Deallir y bydd adroddiad tebyg i hwn yn cael ei gyflwyno gan Bennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Ynys Môn i gyfarfod Cyngor Llawn Ynys Môn.

**3. Goblygiadau ariannol**

3.1 Un o'r rhesymau am ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn, oedd gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r ddau awdurdod. Byddai unrhyw gost sydd yn gysylltiedig â chreu'r Pwyllgor yn cael ei rannu rhwng y ddau awdurdod. Yn y pen draw credir y bydd cael trefniant cydweithio ffurfiol rhwng y ddau awdurdod, sydd yn cynnwys creu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, creu un Cynllun Datblygu Lleol a chreu'r Pwyllgor Polisi Cynllun ar y Cyd, yn fwy cost effeithiol na sefyllfa lle nad oes cydweithio ffurfiol a bod y ddau Awdurdod yn cynhyrchu un Cynllun Datblygu Lleol yr un.

**4. Argymhellion**

4.1 Argymhellir bod y Cyngor:

a) Yn cymeradwyo'r cytundeb yn Atodiad A ar gyfer darparu a chefnogi Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

b) Yn dirprwyo’r hawl i’r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i ddiwygio cyfansoddiad y Cyngor yn ddarostyngedig i sicrhau cytundeb gyda Chyngor Sir Ynys Mon.
c) Yn dirprwyo’r hawl i’r Pennaeth Adran Rheoleiddio, mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, wneud man ddiwygiadau i’r cytundeb yn Atodiad A os fydd angen.